# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Pwllheli

Ysgol Cymerau
Ffordd y Mela
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5AR

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Pwllheli

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Pwllheli |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Cylch Meithrin Pwllheli |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Gwenllian Evans |
| Person â gofal | Kimberly Jones |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Ystod oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 35 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 7 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9:00 y.b. – 3:00 y.h. dydd Llun a dydd Gwener.9:00 y.b. – 5:00 y.h. dydd Mawrth i ddydd IauAr agor yn ystod tymor ysgol. |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 26 Chwefror 2020 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 26 Chwefror 2020 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 27/01/2026 |

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth ychwanegol | |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu hyder y plant i ddechrau defnyddio'r Gymraeg gydag annibyniaeth gynyddol.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar eu gwaith mewn perthynas â sut mae ymarferwyr yn casglu a defnyddio arsylwadau yn bwrpasol i ddiwallu anghenion pob un plentyn i'w ledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Rhagorol

Mae bron pob plentyn yn hapus ac yn fodlon yn y lleoliad. Maent yn ymgartrefu ac ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni neu ofalwyr ar ddechrau sesiynau gan neu bod wedi ffurfio perthnasau cadarn gyda'r ymarferwyr. Mae'r lleiafrif o blant sydd angen mwy o gefnogaeth yn derbyn llawer iawn o gysur ac anogaeth gan ymarferwyr, sy'n eu helpu i deimlo'n sicr ac i ymuno'n hapus i chwarae gyda'u ffrindiau.

Mae bron pob plentyn yn cyfathrebu'n hyderus ac yn gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Maent yn dewis sut i dreulio'u hamser yn effeithiol iawn, yn dilyn eu diddordebau ac yn cymryd rhan mewn profiadau dysgu a chwarae yn eu hamser eu hunain. Mae barn a dewisiadau'r plant yn cael ei flaenoriaethu gan ymarferwyr, gyda'u hanghenion unigol yn cael eu hystyried a'u diwallu trwy'r amser. Er enghraifft, maent yn medru mynegi pan nad ydynt eisiau cymryd rhan mewn gweithgareddau megis brwsio dannedd tan eu bod nhw'n barod i wneud.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymateb yn dda i ganmoliaeth, gyda llawer yn dangos balchder tuag at eu gwaith ac yn frwdfrydig i rannu eu llwyddiannau. Er enghraifft, maent yn awyddus i ddangos eu gwaith creadigol ac i rannu l gyda'r ymarferwyr gan ofyn iddynt ychwanegu eu gwaith at y 'Wal waw'. Maent yn ymfalchïo wrth dderbyn canmoliaeth gan ymarferwyr am eu hymdrechion. Mae bron bob plentyn yn gyfarwydd â'r trefniadau dyddiol ac yn cydymffurfio'n aeddfed gyda'r gweithdrefnau. Er enghraifft, maent yn cadw teganau yn y man priodol yn ddiffwdan wrth i'r ymarferwyr ddweud ei bod hi'n amser tacluso ac yn mynd yn syth i eistedd ar y mat.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau datblygu sgiliau cymdeithasol cadarn ac yn dysgu i rannu teganau ac adnoddau. Er enghraifft, maent yn hapus i gymryd tro i ddefnyddio'r beiciau gan aros am eu tro yn defnyddio'r amserydd tywod. Mae llawer o'r plant yn hapus i gydweithio ac i rannu adnoddau'n effeithiol. Er enghraifft, maent yn cydweithio i greu cwrs antur ac yn rhannu'r adnoddau yn y cegin fwd i greu cacen.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n ddiwyd wrth fynd i'r afael â thasgau. Mae bron bob un yn mwynhau datrys problemau ac arbrofi gydag offer a deunyddiau gwahanol. Er enghraifft, maent yn mwynhau teimlo gwead y jeli gyda'u dwylo ac yn dyfalbarhau wrth arllwys dŵr cynnes i doddi'r rhew i ryddhau'r anifeiliaid bach. Mae bron bob plentyn yn chwilfrydig am y byd o'u cwmpas ac yn mwynhau arbrofi gyda deunyddiau naturiol. Er enghraifft, maent wrth eu bodd yn arbrofi gyda'r clai i greu cacennau a chrempogau, gan ychwanegu petalau sych a blawd atynt.

Mae bron bob plentyn yn dewis gweithgareddau yn ôl eu diddordebau ac yn datblygu eu medrau annibynnol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn helpu i arllwys eu diod eu hunain yn ystod amser byrbryd, yn dysgu i drin llestri te yn ofalus yn yr ardal chwarae rôl ac yn cadw offer a theganau yn y llefydd priodol heb ymyrraeth oedolyn. Mae bron bob plentyn yn datblygu annibyniaeth dda wrth ymgymryd â thasgau hunan ofal, fel gwisgo eu cotiau, golchi eu dwylo a chadw eu bagiau a'u cotiau yn y mannau priodol.

### Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae llawer o blant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn, yn enwedig yn eu medrau corfforol. Mae bron pob plentyn yn ymgysylltu'n hapus â'u chwarae ac yn defnyddio'r adnoddau ar gael yn ystyrlon. Maent yn gwneud dewisiadau bwriadus am ble i chwarae ac mae'r mwyafrif yn dangos hyder wrth ddewis os nad ydynt am gymryd rhan mewn gweithgaredd. Mae y rhan fwyaf o blant yn aros eu tro yn amyneddgar ac yn dangos cyfrifoldeb drwy ofalu am yr adnoddau.

Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau llythrennedd a chyfathrebu yn dda. Maent yn dangos cariad at lyfrau ac yn eu trin yn briodol fel darllenwyr ifanc. Mae bron pob un plentyn yn gwrando'n astud ac yn dilyn cyfarwyddiadau'n briodol wrth rannu teganau. Mae llawer yn defnyddio offer marcio'n briodol ac mae lleiafrif yn disgrifio eu gwaith yn ddealladwy. Mae y rhan fwyaf o blant yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'r Gymraeg, gyda ychydig yn dechrau defnyddio'r Gymraeg yn ystod gweithgareddau a chwarae. Mae ychydig o blant yn dechrau ffurfio llythrennau o'u henwau yn llwyddiannus. Yn achos yr ychydig o blant nad ydynt eto'n defnyddio geiriau, maent yn datblygu strategaethau cyfathrebu effeithiol sy'n sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu'n briodol.

Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau rhifedd a datrys problemau yn dda. Maent yn dangos hyder wrth ddefnyddio offer digidol ac yn rheoli teganau trydanol yn gynyddol fedrus. Mae gan lawer o blant ddealltwriaeth arbennig o rif ac maent yn cyfrif yn naturiol a bwriadus yn eu chwarae. Maent yn cydweithio'n effeithiol i ddatrys problemau ymarferol. Er enghraifft, maent yn cytuno ar y ffordd orau i achub cerbyd sydd wedi mynd yn sownd. Mae llawer o blant yn adnabod symbolau mathemategol ac yn llwyddo i efelychu patrymau yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau corfforol yn dda iawn. Maent yn cerdded ar draws trawstiau, dringo drwy dwneli a neidio mewn pyllau mwd yn hyderus. Maent yn datblygu eu medrau modur man yn arbennig o dda. Er enghraifft, wrth chwarae yn y gegin fwd maent yn rheoli llwyau yn fedrus i gludo cynhwysion o'r powlen i'r tin pobi. Yn yr awyr agored, maent yn dangos chwilfrydedd naturiol wrth archwilio'r coetir a defnyddio beiciau a sgwteri gyda hyder a chydsymud gwych. Mae llawer o blant yn datblygu medrau creadigol cadarn, gan ddefnyddio eu dychymyg yn effeithiol wrth chwarae rôl. Er

enghraifft, maent yn dewis dillad gwisgo i fyny i ddynwared pili pala yn hedfan. Maent yn mwynhau canu a dawnsio ac yn dangos rheolaeth dda o'u symudiadau.

Mae medrau emosiynol llawer o blant yn datblygu'n dda. Maent yn dangos rheolaeth gynyddol effeithiol dros eu hemosiynau, ac yn ceisio cefnogaeth gan oedolion dibynadwy pan fo angen.

### Gofal a datblygiad: Rhagorol

Mae'r holl ymarferwyr yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelu ac yn dilyn gweithdrefnau cadarn er mwyn sicrhau bod plant yn cadw'n iach a diogel. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth drwyadl o'r gweithdrefnau cywir i ddilyn pe byddai ganddynt bryder am blentyn. Maent yn defnyddio'r arferion o'u hyfforddiant ar ddiogelu plant yn effeithiol. Mae'r holl ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf priodol ac maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau'n drylwyr, gan sicrhau bod rhiant yn ymwybodol o'r digwyddiad. Mae ymarferion tân yn cael eu cwblhau'n rheolaidd a'u cofnodi'n effeithiol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r holl ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau trylwyr er mwyn atal lledaenu heintiau. Maent yn dilyn arferion effeithiol wrth newid cewynnau, ac yn annog y plant i olchi eu dwylo pan fo'n briodol. Maent yn hyrwyddo bwyta'n iach a gweithgareddau ymarfer corff yn llwyddiannus. Yn ogystal, maent yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol i'r plant dreulio amser tu allan yn yr awyr iach yn gyson.

Mae'r holl ymarferwyr yn ffurfio perthnasau hynod gadarnhaol gyda'r plant. Maent yn amyneddgar, yn siarad gyda'r plant yn dyner ac yn eu trin gyda gofal a pharch. Mae'r holl ymarferwyr yn defnyddio strategaethau hynod effeithiol a chyson i hybu ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Maent yn defnyddio canmoliaeth gyson yn effeithiol. Mae'r holl ymarferwyr yn parchu teimladau'r plant ac yn eu cefnogi i ddod i ddeall a dechrau rheoli eu hemosiynau. Er enghraifft, pan mae plant yn crio am nad ydynt eisiau aros eu tro i chwarae gyda'r beiciau maent yn dweud cydnabod teimladau y plant ac yn rhoi cysur iddynt. Maent yn ei helpu i ddod i gyfaddawd drwy egluro am rannu ac yn ei helpu i ddeall y byddant yn cael tro ar ôl aros, gan ddefnyddio amserydd tywod fel cymorth gweledol. O ganlyniad, mae'r plant yn datblygu eu hunan hyder yn fuddiol iawn ac yn dysgu sgiliau cymdeithasol cadarnhaol.

Mae ymarferwyr yn dilyn trefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn casglu ystod helaeth o wybodaeth am hoffterau, anghenion unigol ac unrhyw wybodaeth sy'n bwysig i gefnogi'r plant. Mae'r wybodaeth yma'n cael ei ddefnyddio i creu proffil personol i bob plentyn, sy'n cynnwys strategaethau defnyddiol i helpu'r ymarferwyr ddod i adnabod sut i gefnogi'r

plant yn effeithiol Er enghraifft, maent yn cysuro'r plant sy'n cael mwy o drafferth wrth adael eu rhieni yn syth wrth iddynt gyrraedd. Mae gweithdrefnau cadarnhaol ar waith i gyfeirio plant am gymorth gan asiantaethau allanol os oes angen.

Mae ymarferwyr yn cyfathrebu'n gyson gyda rhieni trwy gyfryngau cymdeithasol a thrwy gwblhau dyddiaduron dyddiol. Maent yn creu llyfrau pwrpasol i rannu â rhieni ar ddiwedd pob blwyddyn, sy'n cynnwys ffotograffau o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a rhai o'u llwyddiannau. Mae ymarferwyr yn cynnal diwrnodiau agored a nosweithiau rhieni rheolaidd er mwyn caniatáu i'r rhieni weld y gweithgareddau amrywiol a'r adnoddau sy'n cael eu darparu. O ganlyniad, mae rhieni yn magu ymwybyddiaeth gyfredol am ddatblygiad eu plant.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol

Mae ymarferwyr yn dangos dealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant ac o'r cwricwlwm. Mae ganddynt ffordd naturiol o alluogi'r plant i arwain eu dysgu ac maent yn fedrus wrth gydbwyso cyfnodau hir o chwarae di-dor gyda chyfnodau fwy strwythuredig. O ganlyniad, mae plant yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ymgolli'n llawn yn eu chwarae, tra'n cael y cyfleodd buddiol i feithrin a datblygu eu medrau.

Mae'r lleoliad yn darparu profiadau dysgu cyfoethog sy'n bodloni anghenion y plant yn effeithiol iawn. Maent yn datblygu medrau llythrennedd plant yn llwyddiannus drwy ddarparu cyfleoedd cyson i siarad, darllen ac ysgrifennu mewn cyd-destunau ystyrlon. Mae ymarferwyr yn modelu iaith yn dda iawn. Maent yn chwarae ochr-yn-ochr â'r plant ac yn defnyddio iaith gyfoethog i fodelu geirfa ac ymestyn dealltwriaeth. Maent yn gweithio'n effeithiol i feithrin cariad at lyfrau drwy rannu testunau gyda phlant ac annog trafodaethau. Maent yn hybu ysgrifennu yn fwriadus drwy sicrhau bod ystod o offer marcio ar gael yn yr ardaloedd chwarae tu mewn a thu allan. Mae'r lleoliad yn dathlu cynnydd plant yn grefftus drwy arddangos eu gwaith ysgrifennu cynnar, sy'n helpu plant i feithrin hyder wrth siarad am eu profiadau.

Mae ymarferwyr yn trefnu profiadau cyffrous, ymestynnol ar gyfer datblygu medrau corfforol plant. Er enghraifft, maent yn mynychu'r ganolfan hamdden yn wythnosol ar gyfer sesiynau gymnasteg ac yn cael cyfleoedd dyddiol i ddringo, cydbwyso a reidio beiciau amrywiol. Mae'r profiadau gwerthfawr hyn yn cefnogi datblygiad gwybyddol, cryfder a gwydnwch plant yn effeithiol iawn. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu eu medrau creadigol drwy ganu a dawnsio i ganeuon cyfarwydd.

Mae ymarferwyr yn cynnig amrywiaeth o adnoddau digidol ymestynnol ar draws pob ardal chwarae sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant cael arbrofi a datrys problemau. Er enghraifft, mae amrywiaeth o gamerâu, ffonau a cherbydau rheoli ar gael i blant archwilio a defnyddio'n annibynnol. Mae ymarferwyr yn gosod adnoddau yn fwriadus er mwyn creu

amgylchedd effeithiol iawn sy'n datblygu medrau rhifedd plant yn llwyddiannus. Maent yn gosod tapiau mesur, cloriannau a rhifau i sicrhau fod plant yn defnyddio cysyniadau mathemategol yn naturiol yn eu chwarae digymell.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rhagorol i blant ddysgu a diddori yn eu hardal leol er mwyn atgyfnerthu'r ymdeimlad o berthyn i'r gymuned. Er enghraifft, maent yn ymweld a'r coetir lleol i gasglu eitemau naturiol ar gyfer creu crefftau a mynd i brynu diod yn y caffi. Maent yn cefnogi datblygiad cymdeithasol a moesol y plant yn arbennig drwy ymweliadau cyson â'r cartref henoed i ganu a sgwrsio gyda'r trigolion. Mae hyn yn helpu y plant i ddatblygu empathi a pharch wrth gyfathrebu mewn cyd-destun dilys. Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau buddiol sy'n datblygu dealltwriaeth ddiwylliannol y plant yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd drwy greu symbolau, blasu, dawnsio a defnyddio straeon traddodiadol. Maent yn sicrhau fod plant yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu'n ysbrydol drwy adrodd gweddïau o ddiolch adeg bwyd ac amser mynd adref.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau blaengar ar gyfer arsylwi ac asesu plant. Mae ymarferwyr yn cofnodi arsylwadau perthnasol sy'n nodi cynnydd ac anghenion unigol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth o'u harsylwadau yn grefftus i nodi camau nesaf yn y dysgu a thargedau cyraeddadwy unigol. O ganlyniad, mae yna ddilyniant clir yn y dysgu. Mae ymarferwyr yn datblygu proffiliau un dudalen cynhwysfawr sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd, gyda chefnogaeth rhieni a gofalwyr. Trwy'r perthnasau effeithiol, yn enwedig gyda rhieni plant ag anghenion dysgu ychwanegol, mae ymarferwyr yn sicrhau partneriaeth gref sy'n cefnogi cynnydd ac yn cryfhau profiad dysgu'r plant yn feistrolgar.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn sicrhau bod gweithdrefnau cadarn ar waith i wirio, monitro a rheoli unrhyw beryglon posibl yn effeithiol. Mae asesiadau risg trylwyr yn amlinellu unrhyw beryglon posibl a'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal unrhyw risgiau i blant. Yn ogystal, mae ymarferwyr yn cwblhau gwiriadau dyddiol priodol, ac yn mynd i'r afael ag unrhyw beryglon sy'n cael eu canfod yn gyflym ac effeithiol. Maent yn cynllunio'n drylwyr ar gyfer gweithgareddau lle bo'r plant yn cymryd risgiau drostynt eu hunain. Er enghraifft, maent yn darparu sesiynau lle mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddefnyddio offer llaw adeiladu, ymweliadau a'r traeth, a dysgu yn y goedwig.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ardaloedd dysgu a chwarae yn braf a chyfforddus. Maent yn arddangos esiamplau o waith y plant a ffotograffau ar y waliau, sy'n creu ymdeimlad da o berthyn. Mae'r ardaloedd chwarae wedi'u trefnu'n effeithiol gydag ystod eang o ddeunyddiau ac adnoddau naturiol a gwrthrychau go iawn. Mae hyn yn rhoi digon o gyfleoedd i blant arbrofi, archwilio ac i ddysgu am y byd o'u cwmpas. Er enghraifft, mae cyfleoedd i blant adeiladu gan ddefnyddio darnau pren ac i arbrofi gyda pherlysiau, blodau

a phridd yn y cegin fwd. Mae peiriannau a gwrthrychau go iawn yn yr ardal chwarae rôl yn helpu'r plant i drin offer yn ofalgar ac i ddatblygu sgiliau annibyniaeth er enghraifft, drwy wneud paned yn y llestri te go iawn.

Mae arweinwyr wedi datblygu'r ardaloedd chwarae tu allan i gynnig amrywiaeth dda o weithgareddau a chyfleodd pwrpasol i blant ddatblygu eu sgiliau drwy chwarae. Er enghraifft, mae ganddynt gwrs antur gydag offer dringo, ardal goedwig ac amrywiaeth o offer i greu marciau ar fyrddau pwrpasol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod dda o adnoddau ac offer diddorol ar gael yn yr ardaloedd tu mewn. Mae'r rhain o ansawdd dda ac yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae ymarferwyr yn glanhau'r offer ac adnoddau'n rheolaidd ac yn monitor hyn drwy gadw cofnod trylwyr.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae arweinyddiaeth y lleoliad yn effeithiol iawn ac yn dylanwadu'n ardderchog ar ansawdd y ddarpariaeth a safonau lles y plant. Mae ethos gynnes a chartrefol y lleoliad yn adlewyrchu disgwyliadau uchel yr arweinwyr yn glir. Mae arweinwyr yn sicrhau fod yna bwyslais cryf ar arferion cefnogol sy'n canolbwyntio ar les plant. Maent yn trefnu hyfforddiant perthnasol sy'n cryfhau arfer y tîm yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae arweinwyr yn llwyddo i greu amgylchedd rhagorol lle mae plant yn cael llais, eu teimladau'n cael eu dilysu a'u bod yn teimlo'n ddiogel yn yr amgylchedd dysgu. Mae arweinwyr yn sicrhau bod dogfennau a systemau asesu'n fanwl, gyfredol ac yn bwrpasol. Trwy drefnu cyfnodau penodol i staff gyfrannu at arsylwadau a gwaith cynllunio. Ni nodwyd unrhyw achos o dorri rheoliadau na safonau gofynnol cenedlaethol yn ystod yr arolygiad.

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer gwella. Maent yn manteisio ar gefnogaeth partneriaethau allweddol i godi safonau, gan gynnwys cydweithio â'r ysgol i ddatblygu prosiectau fel ysgol goedwig. Mae arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau hynod effeithiol i adnabod cryfderau'r lleoliad ac unrhyw feysydd i'w datblygu. O ganlyniad, maent wedi buddsoddi'n strategol mewn adnoddau pwrpasol megis offer digidol. Mae'r gwaith cynllunio hwn yn systematig ac yn canolbwyntio'n glir ar wireddu'r datganiad o ddiben.

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu datblygiad proffesiynol ymarferwyr gan sicrhau cyfleoedd hyfforddiant gwerthfawr yn rheolaidd. Maent yn trefnu cyfarfodydd un-i-un buddiol sydd yn darparu cyfleodd i drafod pryderon ac i sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei deilwra yn ofalus ac o ansawdd uchel. Mae arweinwyr yn sicrhau fod rôl a chyfrifoldebau pob ymarferydd wedi'u diffinio'n glir, a thrwy'r system grwpiau ffocws, gall ymarferwyr adnabod y plant yn drylwyr a chynllunio'n fanwl ar eu cyfer. Mae arweiniad ysbrydoledig arweinwyr yn cael effaith hynod gadarnhaol ar hyder ymarferwyr ac ar y ffordd maent yn rhyngweithio â phlant.

Maent yn cadw ffeiliau staff yn gyfredol a threfnus, ac mae goruchwyliaeth effeithiol iawn yn cael ei gynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau ymarfer diogel a phroffesiynol.

Mae arweinwyr yn monitro'r gyllideb yn drwyadl ac yn gwneud defnydd pwrpasol o grantiau i ddarparu addysg o ansawdd eithriadol i bob plentyn. Er enghraifft, maent yn buddsoddi mewn canopi i wella'r ddarpariaeth awyr agored a threfnu hyfforddiant synhwyraidd er mwyn ymateb i ofynion y plant.

Mae perthynas y lleoliad â rhieni yn gadarn, gyda nosweithiau agored, llyfrau cyswllt ac ap digidol yn rhannu gwybodaeth am gynnydd y plant. Mae arweinwyr yn sicrhau trefniadau pontio gyda'r ysgol gynradd sydd yn hynod effeithiol, ac yn helpu plant i drosglwyddo'n hyderus i'r cam nesaf o'u haddysg. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y gymuned yn ganolog i'r lleoliad drwy drefnu ymweliadau, croesawu ymwelwyr, ac annog partneriaeth weithredol sy'n cefnogi dysgu a lles y plant yn hynod effeithiol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol/Prysg (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/03/2026